# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Cylchlythyr y Pwyllgorau a Deddfwriaeth –

## Hydref 2016

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith pwyllgorau'r Cynulliad a hynt Biliau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Fe'i paratowyd mewn ymateb i adborth gan nifer o randdeiliaid a awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cael cipolwg rheolaidd ar waith y pwyllgorau a deddfwriaeth.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich **adborth**.

# Cynnwys


**Yn fanwl ... 1**

01. Dechrau'r Pumed Cynulliad ... 1
02. Diwedd y Pedwerydd Cynulliad ... 1

**Y diweddaraf gan bwyllgorau'r Cynulliad ... 2**

03. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ... 2
04. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ... 2
05.Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ... 3
06.Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ... 3
07.Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ... 3
08. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ... 4
09. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ... 5
10.Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ... 5
11.Y Pwyllgor Cyllid ... 5
12. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ... 6
13. Y Pwyllgor Deisebau ... 6
14.Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ... 7
15. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ... 7

# Yn fanwl

## 01. Dechrau'r Pumed Cynulliad

Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried un Bil: y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a gyflwynwyd ar 12 Medi 2016.

Ar 28 Mehefin 2016, cyflwynodd y Prif Weinidog raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y 12 mis nesaf. Roedd hon yn cynnwys cynigion i gyflwyno:

Bil i gyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru;

deddfwriaeth i ddiddymu adrannau o Ddeddf Undebau Llafur Llywodraeth y DU;

Bil Iechyd y Cyhoedd, ond heb y cyfyngiadau ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig;

deddfwriaeth i ddarparu fframwaith cyfreithiol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, o'u genedigaeth hyd at 25 oed;

Bil i ddiddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael.

Ni chyflwynwyd yr un Bil Aelod, Bil Pwyllgor na Bil Comisiwn y Cynulliad hyd yma yn y Pumed Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Busnes ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o broses Biliau Aelod.

## 02. Diwedd y Pedwerydd Cynulliad

Cyhoeddwyd cylchlythyr diwethaf y pwyllgorau ym mis Chwefror 2016. Ar y pryd, roedd y Cynulliad yn ystyried dau Fil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)). Cafodd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ei wrthod gan y Cynulliad ar 16 Mawrth 2016. Pasiwyd y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) gan y Cynulliad ar 8 Mawrth 2016, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016.

Ar adeg cyhoeddi cylchlythyr diwethaf y pwyllgorau, roedd y Cynulliad hefyd yn ystyried un Bil Aelod sef Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Fe'i pasiwyd gan y Cynulliad ar 10 Chwefror 2016, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.

Methodd tri Bil Aelod ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, sef:

- y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru);
- y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru); a'r
- y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru).

O ganlyniad, yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yn ei gyfanrwydd:

- cafodd 25 o Filiau Llywodraeth Cymru Gydsyniad Brenhinol, gydag un o Filiau Llywodraeth Cymru yn cael ei wrthod;
- cafodd dau Fil Aelod Gydsyniad Brenhinol, gyda thri Bil Aelod yn methu; a
- chafodd un Bil Comisiwn y Cynulliad Gydsyniad Brenhinol.

# Y diweddaraf gan bwyllgorau'r Cynulliad

## 03. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddPPIA

Y tymor hwn mae'r Pwyllgor wedi cychwyn ymchwiliad i waith ieuenctid yng Nghymru. Daeth 34 o ymatebion ysgrifenedig i law yn sgil yr ymgynghoriad a gynhaliwyd. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ddigwyddiad i randdeiliaid ar gyfer sefydliadau yn y sector gwirfoddol, lle rhoddwyd cyfle i Aelodau drafod yn uniongyrchol y problemau a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau ieuenctid. Cynhaliwyd sesiynau ffurfiol hefyd i gymryd tystiolaeth lafar gan Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad cyn diwedd y tymor.

Ceisiodd y Pwyllgor farn rhanddeiliaid, dros doriad yr haf, am ba faterion y dylai'r Pwyllgor roi blaenoriaeth iddynt yn ystod y Pumed Cynulliad. Daeth cyfanswm o 85 o ymatebion ysgrifenedig i law, gan amrywiaeth eang o randdeiliaid / sefydliadau, yn ogystal â'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth hon, a bydd yn ei defnyddio wrth lunio ei flaenraglen waith. Cyhoeddir adroddiad cyn hir yn dadansoddi'r canfyddiadau.

Ar 6 Hydref, aeth Comisiynydd Plant Cymru i gyfarfod i drafod ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2015/16. Ar 12 Hydref bydd y Pwyllgor yn clywed gan yr Athro Syr Ian Diamond, a fydd yn bresennol i drafod yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddo yn ddiweddar i Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr.

Ddiwedd mis Hydref, bydd y Pwyllgor yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg / Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn bresennol i drafod eu cynigion ar gyfer y gyllideb sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid yn amlinellu ei bryderon a'i gasgliadau.

Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf gan Gymwysterau Cymru yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, a bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn gyda Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru i graffu ar yr adroddiad.

Rhagwelir y bydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor cyn diwedd y tymor hwn, ac y bydd ystyriaeth Cyfnod 1 yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

## 04. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddNHAMG

Cyfarfu'r Pwyllgor â rhanddeiliaid yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.  Clywodd yr Aelodau yn uniongyrchol pa faterion oedd yn flaenoriaeth ar gyfer economi cefn gwlad, a sut y dylem gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod cyfarfod cyntaf tymor yr hydref, cafwyd cyfle i groesawu Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, a'i chlywed yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â ffermwyr yng Ngheredigion i ddysgu mwy am eu busnesau

a'u pryderon. Hefyd cawsant gyfle i gyfarfod â chynhyrchwyr bwyd ac ymweld â siop fferm i ddeall sut mae bwyd a gynhyrchwyd yn lleol yn cyrraedd marchnadoedd lleol. Clywodd yr Aelodau hefyd am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu amgylchedd y môr ym Mae Ceredigion.

Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn dystiolaeth gyntaf ar gyfer yr Ymchwiliad i Ddyfodol Polisïau Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru. Cafwyd cipolwg, gan gyflwynwyr diddorol a llawn gwybodaeth, ar y cyfleoedd a'r risgiau sy'n wynebu llunwyr polisïau gwledig yn sgil y penderfyniad i adael yr UE.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn i randdeiliaid i gytuno sut y dylai fonitro i ba raddau y cyflawnwyd yr ymrwymiadau ar newid yn yr hinsawdd sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.




## 05.Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor

Cyfarfu'r Pwyllgor yn gynnar ym mis Medi a chytuno ar ei ddull o drefnu cyfarfodydd yn ystod y Pumed Cynulliad. Cytunodd i gyfarfod unwaith yn ystod pob tymor, ac i gyfarfod mewn gwahanol leoedd ledled Cymru. Bydd pob cyfarfod yn canolbwyntio ar bwnc penodol yn ymwneud â phortffolio'r Prif Weinidog neu ar oruchwylio'r gweithgarwch Llywodraeth Cymru.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 18 Tachwedd a bydd yn canolbwyntio ar y Rhaglen Lywodraethu.

## 06.Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddMCD

Craffu ar Fil Cymru oedd pwyslais y Pwyllgor ym mis Medi. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 6 Hydref. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd â Phwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad yr wythnos hon, mewn cysylltiad â'r Bil, a bydd yn cael trafodaeth â Sefydliad y Llywodraeth ynglŷn â rhaglen strategol y Pwyllgor.

Ar 3 Hydref, craffodd y Pwyllgor ar ei Fil cyntaf yn y Pumed Cynulliad, gan gymryd tystiolaeth gan Mark Drakeford AC ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

## 07.Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddDGCh

Dechreuodd y Pwyllgor y tymor newydd trwy edrych ar oblygiadau Bil Cymru i faterion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn enwedig y Gymraeg, darlledu a'r cyfryngau.  Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gyfleu ei bryderon ynglŷn ag effeithiau andwyol posibl y Bil ar gymhwysedd presennol y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau craffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar eu blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Ar ôl sesiwn strategaeth wedi'i hwyluso gan Kate Faragher, mae'r Pwyllgor wedi cytuno mai testun yr ymchwiliad llawn cyntaf iddo'i gynnal fydd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Manteisiodd y Pwyllgor hefyd ar y weithdrefn newydd ar gyfer Datganiad Pwyllgor i amlinellu ei gylch gwaith ac i gyhoeddi y bydd y cyhoedd yn cael llais uniongyrchol yn y broses o ddewis ymchwiliad nesaf y Pwyllgor, trwy bleidlais.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi treulio peth amser yn ymgyfarwyddo â'i gylch gwaith, yn enwedig ym maes darlledu gan fod Siarter newydd y BBC a'r adolygiad o S4C yn debygol o fod yn faterion o bwys yn ystod y misoedd sydd i ddod.  Mae'r Pwyllgor wedi ymweld ag S4C, ITV Cymru Wales a BBC Cymru i ddod i ddeall rôl y gwahanol ddarlledwyr yng Nghymru.  Cynhelir sesiynau craffu ffurfiol gyda phob un o'r tri, yn ogystal ag OFCOM, ac yna sesiwn graffu gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, yr Arglwydd Tony Hall, ar 2 Tachwedd.




Bydd y Pwyllgor hefyd, yn ystod yr wythnosau sydd i ddod, yn craffu ar waith Comisiynydd y Gymraeg ar nifer o adroddiadau statudol gan gynnwys yr adroddiad blynyddol, yr adroddiad sicrwydd a'r adroddiad pum mlynedd.

## 08. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddESS

Ar ôl cynnal ymgynghoriad dros yr haf a threulio diwrnod yn ystyried ei strategaeth, cytunodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i roi blaenoriaeth i dri darn o waith yn y flwyddyn i ddod.

Bydd y Pwyllgor yn edrych yn fanwl ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2016 ar y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn ystyried cymariaethau â chomisiynau seilwaith eraill yn rhyngwladol, ac yn ceisio nodi arfer gorau.




Bydd yn dechrau ymchwiliad yn gynnar yn 2017 yn edrych ar faterion cydgysylltiedig sy'n dylanwadu ar ddatblygiad Metro De Cymru a masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi dechrau datblygu ei sylfaen wybodaeth trwy gynnal diwrnod o ymweliadau yn ymwneud â'r rheilffyrdd ar 29 Medi.

Mae Dinas-ranbarthau a Bargeinion Dinesig yn debygol o fod yn bwysig o ran sbarduno gweithgarwch economaidd yn y blynyddoedd i ddod, ac mae'r Pwyllgor wedi nodi y byddai'n hoffi cwblhau darn mawr o waith yn y maes hwn yn dilyn etholiadau awdurdodau lleol ym mis Mai 2017.

Yn y dyfodol agos, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiynau craffu unigol yn edrych ar ardrethi busnes, Cyllid Cymru a'r diwydiant dur, ac yn

gwahodd Gweinidogion fel rhan o'n gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft.

## 09. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddCLILCh

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gosod uchelgeisiau mawr i gynnwys cymunedau yn helaeth yn ei waith ac i fod yn arweinydd agweddau ym maes trechu tlodi ar gyfer y Pumed Cynulliad.




Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd yr ymchwiliad yn archwilio pa mor effeithiol yw cyrff cyhoeddus ledled Cymru o ran rhyngweithio â'r ddeddfwriaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae'r Aelodau bellach wrthi'n cytuno ar waith tymor hir y Pwyllgor. I ddechrau, bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad mawr i'r modd y mae digwyddiadau fel gadael yr UE a'r argyfwng ffoaduriaid o Syria yn effeithio ar gymunedau Cymru a sut mae pobl yn byw ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad erbyn dechrau 2017.

## 10.Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddMADY

Dros y misoedd nesaf, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar graffu ar rôl Llywodraeth Cymru ym mhroses y trafodaethau, o ran y telerau ar gyfer gadael yr UE a'r trafodaethau o fewn y DU ynghylch y trefniadau ar ôl i'r DU adael yr UE.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog ar 12 Medi i ddod i ddeall yn well beth yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru, pa strwythurau y mae'n eu rhoi ar waith, a beth yw ei hamcanion ar gyfer y trafodaethau. Mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal rhaglen o seminarau arbenigol sy'n ymdrin â nifer o faterion pwysig fel cyfraith a masnach ryngwladol, cyllid, ymchwil a buddsoddiad, amaethyddiaeth a physgodfeydd, y môr a'r amgylchedd, a chysylltiadau rhynglywodraethol.

Bu'r Pwyllgor hefyd ar ymweliad â Brwsel fel rhan o'i ymchwiliad, gan gynnal cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Iwerddon, Cenhadaeth Canada, Cenhadaeth Swistir, y Comisiwn Ewropeaidd ac Aelodau Seneddol Ewrop ymhlith eraill. Diben yr ymweliad oedd casglu gwybodaeth am y materion a ganlyn, a dod i'w deall yn well:

- datblygiadau ym Mrwsel, o fewn sefydliadau'r UE, a pha ran sydd gan wahanol gynrychiolwyr cenedlaethol/is-genedlaethol yn hyn;
- ystyried rôl Senedd Ewrop yn y broses ffurfiol a'r cyfle sydd iddi ddylanwadu ar y trafodaethau; ac
- ystyried sut y mae Canada a'r Swistir yn ymgysylltu â'r UE ym Mrwsel ac ystyried y gwahaniaethau ymarferol rhwng eu perthynas hwy â'r UE ac aelodaeth gyflawn o'r UE.

## 11.Y Pwyllgor Cyllid

- Tudalen y Pwyllgor ar y we
- E-bost y Pwyllgor
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddCyllid

Mae tymor yr hydref wedi bod yn brysur i'r Pwyllgor Cyllid. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn craffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig. Y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 22 Rhagfyr.

Mae tymor yr hydref hefyd yn brysur oherwydd y gwaith craffu ar y gyllideb. Bydd y Llywodraeth yn gosod ei chyllideb ddrafft ar 18 Hydref a bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar honno erbyn 29 Tachwedd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ac amcangyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn disgwyl i'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi gael ei gyfeirio ato cyn toriad y Nadolig.



## 12. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter @SeneddIechyd

Dechreuodd y Pwyllgor dymor yr hydref trwy graffu ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran eu blaenoriaethau cynnar. Roedd hyn yn cyd-daro ag ymgynghoriad yn ceisio barn rhanddeiliaid ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Pumed Cynulliad. Defnyddiwyd y canlyniad fel sail i sesiwn y Pwyllgor ar 21 Medi ar gyfer cynllunio strategol a thrafod ymchwiliadau posibl.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal dau ymchwiliad byr cyn y Nadolig. Bydd y cyntaf yn edrych ar barodrwydd ar gyfer y gaeaf ac yn adeiladu ar waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol blaenorol. Mae'r cylch gorchwyl yn rhoi pwyslais, ymlith pethau eraill, ar lif cleifion (gan gynnwys gofal sylfaenol y tu allan i oriau arferol, gwasanaethau ambiwlans brys, adrannau achosion brys, ac oedi wrth drosglwyddo gofal). Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cyn cyflwyno ei ganfyddiadau i Ysgrifennydd y Cabinet.

Bydd yr ail ymchwiliad yn edrych ar gynaliadwyedd gweithlu'r GIG. Cynhaliodd y Pwyllgor ddarn eang o waith cychwynnol i gasglu tystiolaeth, i helpu i ddeall y prif faterion sy'n effeithio ar y gweithlu ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal. O ganlyniad i hyn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu dechrau ei waith craffu trwy ystyried prosesau recriwtio staff meddygol. Darn o waith agoriadol yw hwn; rhagwelir y bydd rhagor o waith yn cael ei gynnal trwy gydol y Pumed Cynulliad i ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Yn rhan o'r ymchwiliad hwn, bydd y Pwyllgor yn ymweld â Phrifysgol Caerdydd, gan fynd o amgylch y cyfleusterau, a sgwrsio â myfyrwyr meddygol am eu profiadau a'r hyn sydd wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau ynghylch lle i hyfforddi, lle i weithio ar ôl cwblhau eu hyfforddiant, pa arbenigedd i'w ddewis ac ati.

Yn rhan olaf y tymor, bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18, a bydd yn ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd, ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

## 13. Y Pwyllgor Deisebau

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter
@SeneddDeisebau

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried deisebau derbyniadwy. Yn ei gyfarfod ar 11 Hydref, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar ei adolygiad o'r weithdrefn deisebau, a lluniodd argymhellion ar gyfer y Pwyllgor Busnes.

Mae rhagor o gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Pwyllgor ar 1 Tachwedd, 15 Tachwedd, 29 Tachwedd a 13 Rhagfyr.

## 14.Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter
@SeneddArchwilio

Bu'r Pwyllgor yn cynnal ei waith blynyddol o graffu ar gyfrifon sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus. Eleni mae'r Pwyllgor yn ystyried cyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Estyn, Gyrfa Cymru, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.  Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn gynnar ym mis Tachwedd.

Yn ystod tymor yr hydref bydd y Pwyllgor yn ailystyried arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion mewn ysbytai, ac yn cymryd tystiolaeth gan nifer o fyrddau iechyd yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Bydd gwaith monitro perfformiad yn canolbwyntio ar ymatebion Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth ddiweddaraf am waith blaenorol y Pwyllgor ar faes awyr Caerdydd, y cyswllt awyr o fewn Cymru, band eang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gofal heb ei drefnu a gofal iechyd parhaus. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor holi swyddogion cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar y meysydd hyn.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried materion sy'n codi yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Kancoat.

Cynhelir ymchwiliadau dan arweiniad y Pwyllgor ar gymdeithasau tai Cymru a phlant sy'n derbyn gofal.  Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal sesiwn ffarwél gyda'r Ysgrifennydd Parhaol, Syr Derek Jones, pan fydd yn gadael ym mis Tachwedd.

Ar 3 Hydref, croesawodd y Pwyllgor uwch ddirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Botswana, dan arweiniad y Llefarydd. Roedd gan y ddirprwyaeth ddiddordeb yng ngwaith Pwyllgor, a thrafododd waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus â'r Aelodau.

## 15. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Tudalen y Pwyllgor ar y we

E-bost y Pwyllgor

Ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, cytunodd y Pwyllgor blaenorol ar 'Gasgliad o Ddogfennau Safonau', ac yna'i gyhoeddi.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried rheolau lobïo mewn seneddau eraill, canllawiau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, a 'chofrestru dwbl' ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol.

Mae cyfnod y Comisiynydd Safonau presennol yn ei swydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2016. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cadarnhau penodiad ei olynydd a bydd yn dechrau yn ei swydd ar 1 Rhagfyr 2016 am gyfnod o chwe blynedd.